Diogelu cleifion

eich hawliau fel pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol

Stonewall CYMRU

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rheoleiddio meddygon
Sicrhau arfer meddygol da

Diogelu cleifion

eich hawliau fel pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol

Rhaid bod cleifion yn gallu rhoi eu bywydau a'u hiechyd yng ngofal meddygon. Mae hyn yn cynnwys cleifion lesbaidd, hoyw a deurywiol (LHD) a'u teuluoedd. Mae ganddynt yr un hawliau ag unrhyw un arall i fanteisio ar ofal diogel, effeithiol a phriodol.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) yn nodi egwyddorion arfer da yn ein harweiniad craidd i feddygon, *Arfer Meddygol Da*.

Rydym yn dweud wrth feddygon:

'Ni ddylech wahaniaethu yn erbyn cleifion mewn ffordd annheg trwy ganiatáu i'ch safbwyntiau personol... ynghylch cyfeiriadedd rhywiol... i gael effaith niweidiol ar eich perthynas broffesiynol gyda nhw neu'r driniaeth yr ydych yn ei darparu neu'n ei threfnu ar eu cyfer.'

'...Rhaid i chi beidio mynegi eich credoau personol i'ch cleifion, gan gynnwys eich credoau gwleidyddol, crefyddol neu foesol, mewn ffyrdd a fydd yn camfanteisio ar y ffaith eu bod yn agored i niwed neu mewn ffyrdd sy'n debygol o beri gofid iddynt.'



Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i gredoau personol meddygon ynghylch cyfeiriadedd rhywiol

Sut y dylai meddygon weithio gyda chi

Dylai meddygon weithio gyda chi i wneud y penderfyniadau cywir i chi o ran eich gofal. Dylent eich trin fel unigolyn: a pharchu'ch hurddas a'ch hawl i gyfrinachedd. Os na fyddant yn gwneud hyn, byddant yn torri amodau ein harweiniad. Yn ogystal, mae'n anghyfreithlon dan Deddf Cydraddoldeb 2010 i feddygon wahaniaethu yn eich erbyn mewn ffordd annheg.

Mae Stonewall (yr elusen lesbaidd, hoyw a deurywiol) wedi dweud wrthym bod pobl LHD wedi wynebu'r sefyllfaoedd canlynol gyda meddygon weithiau:

- eu bod wedi methu archwilio neu ymateb i glaf yn gywir, er enghraifft, nid ydynt wedi bod yn fodlon cynnig prawf ceg y groth i lesbiaid
- eu bod wedi dweud wrth eraill bod claf yn hoyw, pan nad oedd gan hyn unrhyw beth i'w wneud gyda'u triniaeth
- eu bod wedi gwrthod derbyn rhywun fel claf oherwydd eu rhywioldeb
- eu bod wedi gwneud sylwadau sarhaus neu wahaniaethol ynghylch rhywioldeb LHD.

Os ydych chi wedi cael unrhyw brofiadau fel hyn, efallai y byddwch yn dymuno siarad gyda rhywun er mwyn ceisio atal hyn rhag digwydd eto.

Beth allwch chi ei wneud os ydych yn pryderu

Cofiwch, mae gennych yr hawl i gwyno os ydych wedi wynebu gwahaniaethu. Yn gyntaf, dylech gysylltu â'r man lle y cawsoch y gofal, oherwydd dyma'r ffordd orau o ddatrys cwynion yn gyflym. Gall CMC gymryd camau os bydd angen i ni wneud hynny er mwyn atal meddygon rhag gwneud gwaith meddyg neu er mwyn cyfyngu ar eu gwaith fel meddyg mewn rhyw ffordd. Bydd angen i sefydliadau lleol a CMC gael gwybod pwy ydych chi os ydym yn mynd i ymchwilio i'ch pryderon. Bydd yn anodd i ni symud ymlaen os byddwch yn dymuno aros yn ddienw.

Os ydych o'r farn nad yw'ch meddyg yn addas i wneud gwaith meddyg, neu y gallai beri risg i gleifion, dylech gysylltu â ni trwy:

- ffonio ein llinell gymorth ar 0161 923 6602; neu
- anfon e-bost atom, **gmc@gmc-uk.org**; neu
- ysgrifennu atom, General Medical Council Fitness to Practise Directorate, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW.

Mae gennym daflen ddefnyddiol, *Sut i gwyno am feddyg,* sy'n esbonio'r hyn a fydd yn digwydd pan fyddwch yn gwneud cwyn ac mae'n rhoi enghreifftiau o'r mathau o achosion y bydd angen i ni weithredu yn eu cylch efallai. Yn ogystal, mae'n cynnwys ffurflen i chi ei llenwi. Mae'r daflen ar gael ar ein gwefan sef **www.gmc-uk.org**, neu gallwch ofyn am gopi ohoni trwy ffonio ein llinell gymorth, 0161 923 6602, neu anfon e-bost at **publications@gmc-uk.org**.

Os byddwch yn penderfynu eich bod yn dymuno gwneud cwyn, byddwn yn ei hadolygu yn ofalus ac yn anfon ymateb atoch cyn gynted ag y gallwn.

Yn anad dim, rydym yn addo y byddwn yn eich trin yn deg ac yn gyfartal.



Cofiwch:

- **Mae gennych yr un hawliau ag y mae gan bawb arall**
- **Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall eich hawliau fel claf**
- **Dylech geisio datrys eich cwyn yn lleol**
- **Os ydych o'ch farn nad yw'ch meddyg yn addas i wneud gwaith meddyg, neu y gallai beri risg i gleifion, dylech gysylltu â CMC**

Llinell Gymorth CMC **0161 923 6602**

Darllen pellach

CMC

Sut i gwyno am feddyg: Canllaw i gleifion

Arfer Meddygol Da

Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau

Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd

Stonewall

The colour of your money: A guide to goods and services

Living Together: British attitudes towards lesbian and gay people

Yr Adran Iechyd (D.U)

An introduction to working with lesbian, gay and bisexual people: Information for health and social care staff

Stonewall CYMRU

Cyngor Meddygol Cyffredinol

www.stonewallcymru.org.uk

www.gmc-uk.org

www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Cyngor Meddygol Cyffredinol

3 Hardman Street
Manchester M3 3AW

Swyddfa CMC Cymru

Tŷ Regus,
Falcon Drive,
Bae Caerdydd, CF10 4RU
Ffôn: 029 2050 4060

Llinell Gymorth CMC 0161 923 6602

Rhif ffôn y tu allan i'r DU: +44 (0)161 923 6402
www.gmc-uk.org

Stonewall Cymru

Ty Gwydr,
1 Rhes Trefelyan,
Bangor,
Gwynedd, LL57 1AX

Ffôn: 01248 370082
Ffacs: 07092 333962
E-bost: cymru@stonewallcymru.org.uk
www.stonewallcymru.org.uk